

Busnes Cymru | Business Wales

TWRISTIAETH GYNALIADWY CYMRU

# PECYN ADNODDAU CADWYN GYFLENWI

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

## PAM BOD CADWYNI CYFLENWI CYNALIADWY'N FWY PWYSIG

Waeth beth yw maint a natur eich busnes, mae sicrhau bod gennych gadwyn gyflenwi gynaliadwy'n hollbwysig o ran cyflawni datblygiad cynaliadwy eich busnes. Ar gyfartaledd, mae cadwyni cyflenwi'n cynhyrchu pum gwaith yn fwy o allyriadau carbon na'ch busnes chi eich hun, a dyna pam y dylid meithrin arferion prynu cynaliadwy ymhlith prynwyr.





### SIARAD Â'CH TÎM

Mae cynnwys eich staff yn natblygiad eich polisi cadwyn gyflenwi gynaliadwy yn hollbwysig oherwydd mae llwyddiant y polisi hwnnw'n eistedd ar eu hysgwyddau nhw. Mae hyfforddiant hefyd yn hanfodol, oherwydd bydd rhai o'ch dewisiadau prynu newydd yn dibynnu ar arfer sylfaenol.

Cofiwch gynnwys datblygiad cynaliadwy fel eitem agenda cyfarfod safonol ac mewn cylchlythyrau; rhannu cynnydd cadarnhaol (waeth pa mor fawr neu fach ydyw) a chasglu mewnbwn ac adborth gan staff

### SIARAD Â'CH YMWELWYR

Mae eich ymrwymiad i gadwyn gyflenwi gynaliadwy yn gyfle gwych i farchnata'ch busnes i gwsmeriaid. Mae 87% o siopwyr eisiau brandiau i weithredu heddiw er mwyn annog cynaliadwyedd i'r dyfodol. Felly, mae'n bwysig siarad â'ch ymwelwyr!

Eglurwch sut rydych yn bwriadu prynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol, eich bod yn defnyddio cyflenwyr yn seiliedig ar eu harferion da a'ch bod chi'n gwneud defnydd effeithlon o gludiant ar gyfer eich danfoniadau.

# Wyddoch chi fod 4 allan o bob 5* unigolyn yn dweud eu bod nhw'n debygol o ddewis brand gydag agwedd cadarnhaol at gynaliadwyedd amgylcheddol?

## 1 Mae Lleol Llawn Cystal

Yr agwedd fwyaf effeithiol at greu cadwyn gyflenwi gynaliadwy yw gweithio â chyflenwyr lleol. Dewiswch radiws o amgylch safle'ch busnes ac edrychwch ar yr hyn sydd ar gael yn eich milltir sgwâr. Dyma ffordd wych o leihau eich ôl-troed carbon.

## 2 Newid Eich Polisi

Creu polisi ysgrifenedig i arwain staff ynghylch sut i ddewis cyflenwyr. Dylai eich polisi ymdrin â'r holl gynnyrch, megis bwyd, diodydd, gwisgoedd ac unrhyw nwyddau traul, yn ogystal â gwasanaethau megis adeiladu, cyfleusterau golchi dillad a glanhau.

## 3 Cydweithio

Hysbyswch eich cyflenwyr yn gyson ynghylch eich polisïau amgylcheddol a chynaliadwy, a gofyn iddynt wneud yr un fath. Dylid rhannu arfer da, a bydd hyn yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd yn gyffredinol.

## 4 Opsiynau Cylchol

Mae ymrwymiad cadarn i ddatblygiad cynaliadwy yn golygu newid i fodel busnes cylchol. Chwiliwch am gyflenwyr sy'n mynd ati i leihau nifer y deunyddiau a ddefnyddir. Ailddefnyddiwch, atgyweiriwch, rhannwch neu ewch ati i fenthyca, adnewyddu ac ail-weithgynhyrchu.

## 5 Osgoi Gwyrddgalchu

Mae gwyrddgalchu'n golygu bod cwmnïau'n gwneud honiadau di-sail ynghylch cynnyrch, a honni eu bod yn cael gwell effaith amgylcheddol, sy'n anwir. Dilynwch y ffeithiau a byddwch yn onest.

*Arolwg Ailgysylltu Croeso Cymru 2021

## OPSIYNAU CYLLIDO

Mae nifer o fanciau'n cynnig cyllid busnes gwyrdd gyda gwahanol feini prawf a benthyciadau o wahanol symiau. Mae ein hymgynghorwyr effeithiolrwydd adnoddau ar gael i drafod eich anghenion gyda chi. Dyma restr fer o ble i gael mynediad at gyllid:

- Banc Datblygu Cymru
- Banc Busnes Prydain
- Cronfa BBaCh Gwyrdd HSBC
- NatWest – Benthyciadau Gwyrdd
- Benthyciad Gwyrdd Barclays
- Benthyciad Busnes Cynaliadwy Virgin Money

## GWEITHREDU CYFLYM Y GALLWCH EI WNEUD

**1** Ewch i ddysgu mwy am fusnesau sy'n lleol i chi, a gweld a allwch gydweithio â nhw.

**2** Edrychwch ar eich cadwyn gyflenwi bresennol a meddyliwch sut allwch wneud newidiadau.

**3** Tynnwch sylw eich ymwelwyr at eich ffynonellau bwyd a diod lleol ac ati.

## OPSIYNAU

Mae bwyd a deunyddiau biolegol eraill y gellir eu dychwelyd i fyd natur yn ddiogel yn gallu ailfywiogi'r tir a rhoi hwb i gynhyrchu bwyd a deunyddiau newydd.

Cytunwch ar drefniadau i ddychwelyd deunydd pecynnu (i leihau eich costau rheoli gwastraff eich hun ac annog opsiynau cynaliadwy).

Er mwyn annog y defnydd o gerbydau trydan, ystyriwch osod cyfleusterau gwefru (fel ffordd o greu refeniw ar gyfer eich busnes, ac annog trafnidiaeth lân.

## ADNODDAU SYDD AR GAEL

Busnes Cymru: Addewid Twf Gwyrdd

FSB: Sut i gaffael yn gynaliadwy (Saesneg yn Unig)

WRAP - Ymgysylltu â'r Farchnad Gynnar (Saesneg yn Unig)

Ennill contractau Llywodraeth Cymru

**Os hoffech chi gael rhagor o gymorth ar gyflwyno mesurau cadwyn gyflenwi i'ch busnes, cysylltwch â'n tîm heddiw.**

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales